BASW Cymru

Y gymdeithas i waith cymdeithasol
a gweithwyr cymdeithasol



# Senedd

## Etholiad 26 Election

Wales decides

Cymru yn penderfynu

www.BASW.co.uk/Senedd2026

# Rhageiriau:



Mae etholiad Senedd 2026 yn debygol o fod yr un mwyaf arwyddocaol ers 1999, gyda newidiadau mawr i'r system bleidleisio. Mae'n ehangu'r nifer o Aelodau'r Senedd (ASau) bron yn 40%, o 60 i 96, yn mabwysiadu system bleidleisio rhestr lawn o bleidiau, sy'n golygu y bydd pob AS yn cael ei ethol trwy'r system gynrychiolaeth gyfrannol, yn lleihau'r nifer o etholaethau o 40 i 16 gyda phob un yn cael ei gynrychioli gan chwech AS, ac yn byrhau tymor y Senedd o bum mlynedd i bedair.

Gyda newidiadau gwleidyddol ysgubol ar y gorwel, mae proffesiwn gwaith cymdeithasol Cymru mewn sefyllfa dyngedfennol, gan ymdopi â heriau parhaus a newydd wrth gefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae anawsterau recriwtio, anawsterau cadw staff, a'r angen brys am strwythur cyflog teg a thryloyw yn cynnig cyfle beiddgar i chwyldroi buddsoddiad mewn gwaith cymdeithasol, gan sicrhau ei gryfder ar gyfer heddiw ac yfory.

Dylai Llywodraeth newydd Cymru gofleidio'n feiddgar, y cyfleoedd i drawsnewid a dyrchafu proffesiwn gwaith cymdeithasol trwy gyflwyno Bil Plant newydd i Gymru (Bil Pob Plentyn), gwella'n sylweddol amodau gwaith pob gweithiwr cymdeithasol a sicrhau gostyngiad mewn biwrocratiaeth a'n bod yn dod yn broffesiwn sy'n cael ei arwain gan ymarferiad. Byddai'r mentrau hyn, sydd wedi'u cynnwys yn ein maniffesto, yn cryfhau datblygiad y proffesiwn ac yn gwella hyder y cyhoedd mewn gweithwyr cymdeithasol ymhellach.

Mae BASW Cymru yn cael ei yrru'n llwyr gan ein haelodau; gweithwyr cymdeithasol sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r proffesiwn ym mhob ffordd. Crëwyd y maniffesto hwn gan ac ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ac mae'n llais cyfunol ar gyfer gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol ledled Cymru. Rydym yn barod ac yn awyddus i gydweithio â Llywodraeth nesaf Cymru i gyflawni newid ystyrlon a chadarnhaol sy'n fuddiol i'r proffesiwn a phob dinesydd ym mhob cymuned ledled Cymru.

**Yr Athro Sam Baron**
**Prif Swyddog Gweithredol (Dros Dro) BASW & Chyfarwyddwraig Genedlaethol BASW Cymru**



Mae gan BASW Cymru enw da trawiadol fel cymdeithas o aelodau ymroddedig sydd wedi ymrwymo i fod yn bartneriaid gyda sefydliadau, llywodraethau, aelodau, a'r gweithlu cysylltiedig ehangach i gefnogi pobl i oresgyn heriau a rhwystrau bywyd. Mae ein cyrhaeddiad a'n heffaith yn drawiadol wrth gynrychioli gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru.

Ar drothwy newid gwleidyddol yma yng Nghymru, mae Llywodraeth nesaf Cymru yn wynebu penderfyniadau hollbwysig, heb unrhyw grŵp sy'n haeddu blaenoriaeth yn fwy na'r cymunedau sy'n agored i niwed, y rhai ar yr ymylon, a'r rhai mewn angen, sy'n cael eu cefnogi'n ddiflino gan ein gweithwyr cymdeithasol o ddydd i ddydd.

Rwy'n herio Llywodraeth nesaf Cymru i weithredu'n ddewr ac yn uchelgeisiol, gan gyflwyno rhaglen waith adeiladol, optimistaidd a ddaw â manteision pendant i Gymru gyfan a'i dinasyddion.

**Andrew Pennington,**
**Cadeirydd, BASW Cymru**

# Mae BASW Cymru a'n maniffesto yn gofyn

BASW Cymru, sy'n rhan o Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, sefydliad ledled y DU, yw'r sefydliad aelodaeth proffesiynol mwyaf yng Nghymru ar gyfer gwaith cymdeithasol. Ein cenhadaeth yw:

- **Gweithredu dros weithwyr cymdeithasol**
- **Gweithredu dros waith cymdeithasol**
- **Gweithredu dros gael cymdeithas well**

Rydym yn cynrychioli lleisiau gweithwyr cymdeithasol a'r proffesiwn gwaith cymdeithasol trwy ymgyrchu, dylanwadu ar y llywodraeth, rhandeiliaid allweddol a llunwyr polisïau yn ogystal â darparu cyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol, adnoddau, cyngor a chynrychiolaeth i'n haelodau.

**Ni yw llais gwaith cymdeithasol yng Nghymru**

Mae BASW Cymru yn ymgyrchu'n ddiflino i sicrhau newid cadarnhaol a lles i broffesiwn gwaith cymdeithasol, ac i blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gwaith cymdeithasol ledled Cymru.



# Gofynion Allweddol

**Mae BASW Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:**

1. Cyflwyno **graddfa gyflog genedlaethol i weithwyr cymdeithasol** ledled Cymru, gan sicrhau cydraddoldeb ag athrawon a GIG Cymru. Bydd hyn yn gwella cadw a recriwtio staff a lefelau hyder ym mhob cymuned yng Nghymru.

2. Cefnogi **creu Cod Ymarferiad Proffesiynol** a fydd yn benodol i weithwyr cymdeithasol sy'n ymarfer yng Nghymru. Mae Codau Ymarfer penodol i waith cymdeithasol yn codi safle proffesiynau trwy ddarparu canllawiau gwell, gosod safonau cliriach a nodi gwaith cymdeithasol fel proffesiwn sy'n wahanol i ofal cymdeithasol.

3. **Buddsoddi mewn fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gwaith cymdeithasol yng Nghymru.** Wedi'i ariannu'n llawn ac yn cael ei gydnabod gan y proffesiwn a chyflogwyr.

4. **Cynyddu gwerth ariannol bwrsariaethau gwaith cymdeithasol ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol**, er mwyn cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n dechrau ar eu taith gwaith **cymdeithasol**. Bydd y cynnydd yn anelu at ehangu demograffeg gymdeithasol y rhai sy'n dechrau yn y proffesiwn ac yn cefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol i gymhwyso heb effeithio'n negyddol arnynt hwy a'u teuluoedd.

5. **Buddsoddi mewn cymunedau ledled Cymru** i greu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylweddol, gan gyfrannu at lesiant a gwytnwch cyffredinol **a gosod y proffesiwn gweithwyr cymdeithasol fel rôl ganolog** wrth wneud y mwyaf o effaith y buddsoddiadau hyn, gan weithredu fel hwyluswyr, eiriolwyr ac ymarferwyr sy'n pontio anghenion unigol gyda newid systemig.

6. Gweithredu **ymgyrch gyfryngau ledled Cymru i hyrwyddo'r proffesiwn gwaith cymdeithasol** mewn modd cadarnhaol ac i annog amrywiaeth ehangach o bobl i ymuno â'r proffesiwn. Yn benodol, i ddenu dynion, sydd ar hyn o bryd yn ffurfio llai na 25% o'r proffesiwn yng Nghymru.

7. **Cydnabod gofalwyr di-dâl fel grŵp blaenoriaeth wrth lunio polisïau gwrthdlodi a chost byw yn y dyfodol** a gweithio ar y cyd â sefydliadau gofalwyr di-dâl a gofalwyr i ddatblygu'r mesurau hyn.

**Yn ogystal, edrychwn ymlaen at gydweithio â llywodraeth newydd Cymru i sicrhau:**

1. **Mae gwaith cymdeithasol yn broffesiwn sy'n cael ei arwain gan ymarferiad o fewn pob sefydliad.** Sicrhewch fod yr arferion gwaith a'r ymyriadau wedi'u seilio ar brofiad byd go iawn, gan fynd i'r afael yn uniongyrchol ag anghenion cymhleth, deinamig unigolion a chymunedau.
2. Dylai pob gweithiwr cymdeithasol, sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ddod yn **aelodau o gymdeithas broffesiynol** a glynu wrth ei chod moeseg. Mae aelodaeth orfodol o gymdeithas broffesiynol yn rhoi cefnogaeth, datblygiad proffesiynol, a datblygu proffesiwn gwaith cymdeithasol. Byddai aelodaeth hefyd yn cefnogi ac yn gwella lefelau cadw gweithlu.
3. Rydym yn cydweithio i **ymgorffori hawliau plant yng nghyfraith Cymru drwy'r ddeddfwriaeth arfaethedig Bil Pob Plentyn** (Cyfraith i Bob Plentyn), a ddatblygwyd gan y grwpiau trawsbleidiol Plant yn Ein Gofal a Phlant a Theuluoedd. Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn cynnwys galwadau am fynediad gwell at ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal, magu plant corfforaethol cryfach, mynediad gwell at dai, addysg a gofal o ansawdd, a sefydlu a chyhoeddi targedau gwrthdlodi.
4. Rydym yn **cyflwyno Cronfa Teulu Cymru**, yn seiliedig ar system ariannu teuluoedd Alaska, lle bydd y 10,000 o blant a aned i dlodi yng Nghymru bob blwyddyn yn cael eu cefnogi gan gronfa o £1,800 y flwyddyn am y tair blynedd gyntaf o fywyd.
5. Rydym yn **cyflwyno mynediad Cyffredinol at Brydau Ysgol Uwchradd Am Ddim** ledled Cymru, mewn ymateb uniongyrchol i'r cyfyngiadau cost byw, i fynd i'r afael â thlodi plant ac i sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn mynd yn llwglyd yn yr ysgol.
6. Rydym yn ymgorffori **ystyriaethau iechyd meddwl a lle**s i bobl ifanc **wrth ddatblygu a chyflwyno polisi newid hinsawdd ac ymgyrchoedd hyrwyddo.**
7. Ni yw'r genedl gyntaf yn y DU i gyflwyno cynigion deddfwriaethol i **gael gwared ar elw o ofal cymdeithasol** i oedolion a'u teuluoedd sy'n byw yng Nghymru ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a ddiffiniwyd.

# Proffil: Gweithlu Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru (data o'r etholiad diwethaf)

Mae **6,838** o weithwyr cymdeithasol cofrestredig (6,263)

Mae hyn yn cyfateb i **216** o weithwyr cymdeithasol fesul 100,000 yng Nghymru (216)

Cymhareb gweithwyr cymdeithasol benywaidd i ddynion yw **4:1** (i'w gadarnhau benywaidd - i'w gadarnhau gwrywaidd) (4:1 gyda 5,114 o fenywod - 1,149 o ddynion)

Oedran cyfartalog gweithwyr cymdeithasol yw **46** (46)

**88%** of social workers o weithwyr cymdeithasol yn wyn, yn wyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu wyn Gwyddelig (88%)

Mae **40%** o weithwyr cymdeithasol yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl (38.5%)

Mae gan **3%** o weithwyr cymdeithasol anabledd (2.5%)

Yn y 12 mis blaenorol, ymunodd **572** o weithwyr cymdeithasol â Chofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru a gadawodd 477 (ymunodd 406 a gadawodd 276)

Ni wnaeth **55%** o weithwyr cymdeithasol a adawodd y gofrestr y llynedd cadw eu cofrestriad (48%)

**17%** o'r rhai a adawodd wedi ymddeol (25%)

Nid oedd **20%** o'r rhai a adawodd yn gweithio mwyach mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru (8%)

Tynnwyd **2** weithiwr cymdeithasol oddi ar y gofrestr yn dilyn gwrandawiad addasrwydd i ymarfer (3)

*Data diweddaraf gweithlu gweithwyr cymdeithasol gan Gymdeithasol Gofal Cymru (Ebrill 2022/Mawrth 2025), o'i gymharu â'r data gweithlu diweddaraf a oedd ar gael yn etholiadau diwethaf y Senedd (2021) gan Gofal Cymdeithasol Cymru (Ebrill 2019) ac a ddefnyddiwyd ym maniffesto BASW Cymru 2021*

## Cymeradwyaeth gan Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol

*“Mae Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol (SWU) yn cymeradwyo maniffesto BASW Cymru yn llwyr. Rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn gwaith cymdeithasol a buddsoddi mewn cymunedau i wneud bywydau pobl yn well. Mae SWU yn falch o weithio ochr yn ochr â BASW Cymru i eiriol dros hawliau a lles gweithwyr cymdeithasol a’r unigolion y maent yn eu cefnogi. Dim ond y camau cyntaf yw ein hymgyrchoedd ar y cyd sydd ar ddod i wella amodau gwaith i weithwyr cymdeithasol ac i gynyddu bwrsariaethau myfyrwyr gwaith cymdeithasol, ac rydym yn edrych ymlaen at weld y gwaith o’r maniffesto hwn yn creu newid cadarnhaol, pendant a pharhaol yng Nghymru.”*

SWU Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol

# Maniffesto BASW Cymru: Cymru'n Penderfynu!

Ers Etholiad diwethaf y Senedd yn 2021, mae gweithwyr cymdeithasol ledled Cymru wedi llywio tirwedd gymhleth o heriau wrth barhau i chwarae rhan ganolog wrth gefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau. Fe nodwyd yn y cyfnod hwn y prinder sylweddol yn y gweithlu a oedd yn fwy na 30% ar draws 17 o 22 awdurdod lleol Cymru yn 2022, pwysau ariannol, a phenderfyniadau polisi, pob un ohonynt wedi effeithio ar y proffesiwn a'i lwybr teithio. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae gweithwyr cymdeithasol yn parhau i fod yn hanfodol i fywydau pobl trwy feithrin gwydnwch cymunedol, diogelu poblogaethau sy'n agored i niwed, gwneud cyfraniad sylweddol at leihau tlodi, a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol. Ac yn bwysicach fyth, caniatáu i bobl fyw'r bywydau maen nhw'n dewis eu byw.

Un o'r heriau mwyaf dybryd i broffesiwn gwaith cymdeithasol yng Nghymru yw'r prinder cyson o weithwyr proffesiynol cymwys. Yn 2022, roedd tua 485 o swyddi gwag mewn gwaith cymdeithasol ar draws 17 o 22 awdurdod lleol Cymru, gyda chyfraddau swyddi gwag yn fwy na 30% mewn rhai ardaloedd, fel Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, a Cheredigion. Roedd gwasanaethau cymdeithasol i blant yn cyfrif am dros ddwy ran o dair o'r swyddi gwag hyn, gan amlygu'r galw critigol yn y sector hwn. Mae'r cyfraddau uchel o  swyddi gwag yn cael eu gyrru gan anawsterau recriwtio a chadw, ac mae delwedd gyhoeddus negyddol o'r proffesiwn yn gwneud pethau'n waeth. Mae camsyniadau, fel y gred bod gweithwyr cymdeithasol yn bennaf yn tynnu plant o deuluoedd heb unrhyw reswm sylweddol, o bosibl yn atal newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn ac yn cyfrannu at argyfwng recriwtio'r proffesiwn[1]. Mae cyflog anghyson ac amodau gwaith heriol yn rhwystrau sylweddol i gadw gweithwyr cymdeithasol. Datgelodd arolwg Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2023 fod 26% o weithwyr gofal cymdeithasol yn teimlo ei bod yn "debygol" neu'n "debygol iawn" y byddent yn gadael y sector o fewn y 12 mis nesaf, gyda 44% yn ystyried gadael o fewn pum mlynedd. Y prif resymau a nodwyd oedd cyflog annigonol (66%), teimlo bod gormod o waith (54%), ac amodau cyflogaeth gwael (40%).

Mae natur heriol gwaith cymdeithasol, ynghyd â chyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu gyrfa, yn rhwystro cadw gweithwyr ymhellach. Yn aml, mae gweithwyr cymdeithasol yn wynebu llwythi uchel o achosion a lludded emosiynol, yn enwedig mewn gwasanaethau plant, lle mae cymhlethdod yr achosion wedi cynyddu[2].

Mae'r cyfnod ers Etholiad diwethaf y Senedd wedi gweld datblygiadau polisi sylweddol, gan gynnwys cyflwyno Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn 2024, sy'n anelu at ddiwygio gofal cymdeithasol plant ac oedolion. Fodd bynnag, er bod BASW Cymru wedi croesawu'r ffaith bod elw wedi'i ddileu o ofal preswyl a gofal maeth i blant, rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd, megis yr angen i wrando ar leisiau'r rheng flaen drwy sicrhau bod system gyhoeddus a gweithlu sydd eisoes dan bwysau yn derbyn y buddsoddiad dirfawr sydd ei angen arnynt i osgoi teimlo pwysau hyd yn oed yn fwy ymhellach yn ddiweddarach.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i fod yn gonglfaen lles cymunedol. Mae eu cyfraniadau'n aml haenog ac yn aml yn gymhleth, gan fynd i'r afael ag anghenion unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed wrth hyrwyddo cydlynu cymdeithasol a thegwch. Mae eu rôl ganolog yn rhaglen Dechrau'n Deg Cymru yn enghraifft o hyn, gan brofi bod dull cyfannol nid yn unig yn trawsnewid bywydau unigol ond hefyd yn cryfhau ffabrig cymdeithasol Cymru, gan wneud gweithwyr cymdeithasol yn anhepgor i wydnwch cymunedol a thegwch cymunedol.[3]

Mae gweithwyr cymdeithasol yn grymuso pobl trwy ganolbwyntio ar eu cryfderau a'u helpu i fyw bywydau sydd o bwys iddynt. Maent yn gweithio'n ddisylw mewn cartrefi a chymunedau, gan atal argyfyngau yn aml trwy gysylltu unigolion ag adnoddau a rhwydweithiau cymorth.

Ledled Cymru, mae gweithwyr cymdeithasol wedi cofleidio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau, gan sicrhau bod lleisiau oedolion yn cael eu

[1] Ferguson, H. (2016). "Researching Social Work Practice Close Up: Using Ethnographic and Mobile Methods to Understand Encounters Between Social Workers, Children and Families."
[2] Gofal Cymndeithasol Cymru, "Workforce Development Report" (2017)
British Association of Social Workers, "State of Social Work Report" (2015)
[3] GOV.WALES, "Analysis of Flying Start outcomes using linked data: emerging findings" (2019)

# Maniffesto BASW Cymru: Cymru'n Penderfynu!

clywed wrth gynllunio gofal. Mae data o 2022-23 yn dangos bod 82% o awdurdodau lleol wedi nodi cynlluniau gofal a chymorth cynhwysfawr i oedolion, gan adlewyrchu ymroddiad gweithwyr cymdeithasol i atebion wedi'u teilwra sy'n hyrwyddo annibyniaeth yn hytrach na dibyniaeth[4].

Mae gweithwyr cymdeithasol hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gyfyngu ar effaith tlodi ledled Cymru. Mae tlodi yn parhau i fod yn her ystyfnig, gyda 22% o drigolion Cymru (700,000 o bobl) yn byw o dan y llinell dlodi yn 2021-24, gan gynnwys 31% o blant. Mae gweithwyr cymdeithasol yn




gweld yr effaith y mae tlodi yn ei chreu bob dydd, gan gefnogi teuluoedd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd, dyled ynni (cynnydd o 144% o 2019-24), a thlodi dŵr (sy'n effeithio ar 175,000 o gartrefi). Mae unigolion anabl (cyfradd tlodi o 32%) a gofalwyr anffurfiol (31%) yn arbennig o agored i effaith tlodi, gyda chyfraddau cyflogaeth isel yn gwaethygu eu heriau. Mae gweithwyr cymdeithasol yn eiriol dros y grwpiau hyn ond maent wedi'u cyfyngu gan adnoddau cyfyngedig a rheolaeth Llywodraeth y DU dros bwysau nawdd cymdeithasol allweddol.

Mae gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cysylltu teuluoedd â gwasanaethau megis rhaglenni prydau ysgol am ddim Llywodraeth Cymru, Cynllun Dechrau'n Deg estynedig, a Chronfa Cymorth Dewisol. Maent yn herio anghydraddoldebau strwythurol ac yn cefnogi grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio, gan gynnwys cymunedau Du, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan dlodi. Mae eu gwaith gyda banciau bwyd a chynghorwyr dyled ynni wedi bod yn hanfodol wrth i argyfyngau anghenion sylfaenol gynyddu. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i rôl Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol newydd - hil, a gynhelir gan BASW Cymru, a fydd yn hyrwyddo arfer gwrth-hiliol ac yn sicrhau mwy o degwch i'r rhai sydd dan anfantais oherwydd eu hethnigrwydd.

Mae gweithwyr cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Maent yn gweithio i sicrhau lleoliadau diogel i'r bron i 2,000 o blant sydd




mewn gofal maeth neu breswyl preifat, gan fynd i'r afael â chymhlethdodau cynyddol anghenion. Maent hefyd yn helpu oedolion sy'n agored i niwed i lywio'r system gofal cymdeithasol i sicrhau bod eu lleisiau, eu dymuniadau a'u hawliau yn cael eu parchu a'u hyrwyddo. Mae eu hymdrechion yn helpu i gynnal sefydlogrwydd teuluol ac atal niwed, gan gyfrannu at gymunedau mwy diogel ledled Cymru.


Mae angen buddsoddiad cynaliadwy a newidiadau yng nghanfyddiad y cyhoedd i sicrhau dyfodol y proffesiwn. Drwy werthfawrogi a chefnogi gweithwyr cymdeithasol, gall Cymru gryfhau ei system gofal cymdeithasol a pharhau i seilio unigolion a chymunedau gwydn, cynhwysol, mwy diogel a hapusach.

Rydym yn edrych at Lywodraeth nesaf Cymru i weithredu gyda dewrder, beiddgarwch ac arloesedd i wneud penderfyniadau a fydd o fudd nid yn unig i broffesiwn gwaith cymdeithasol ond i bob unigolyn ledled Cymru.

[4] GOV.WALES: Social Services Activity 2022–23 (2024)

**BASW Cymru**

Y gymdeithas i waith cymdeithasol
a gweithwyr cymdeithasol




**Cydnabyddiaeth a diolch i:**

Yr Athro Samantha Baron, Dr. Christian Beech, Lisa Cheatham, Kathryn Lawrence, Andrew Pennington, Ian Rees a Sarah Jayne Waters.

## Ymgysylltu ar-lein:

@BASW_Cymru

@baswcymu

/BASWCymru

company/basw-cymru

www.BASW.co.uk/Senedd2026